



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, 2011

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg ar y 9fed o Fai 2014

1. DATGANIAD AGORIADOL

1.1 Nod y Cynllun:

Mae Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.2 Amcanion:

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Gymdeithas i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn,
- sicrhau gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg
- hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Gymdeithas felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor isod.

2. CYFLWYNIAD

2.1 Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

2.1.1 Cefndir

Sefydlwyd Grŵp Cynefin yn Ebrill 2014 wedi i Gymdeithas Tai Clwyd a Chymdeithas Tai Eryri benderfynu uno i ffurfio un gymdeithas dai fwy sy'n gweithredu ar draws gogledd Cymru. Cofrestrwyd fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (rhif 21194R) a gyda Llywodraeth Cymru fel cymdeithas dai elusennol (rhif LO29).

Mae'r Gymdeithas yn:

- Datblygu tai fforddiadwy o bob math mewn ymateb i anghenion lleol: ar gyfer teuluoedd, pobl sengl a phobl hŷn

- Rheoli oddeutu 3,700 o unedau tai cymdeithasol ar draws gogledd Cymru ar hyn o bryd
- Annog ein tenantiaid i ddylanwadu ar berfformiad a gwella'r gwasanaethau maent hwy a'u cymunedau yn eu derbyn
- Berchnogion ar neu'n ran-berchnogion mwy na 700 o dai marchnad ganolraddol ar gyfer pobl sy'n methu prynu cartref addas ar y farchnad agored
- Gweinyddu cofrestrau tai fforddiadwy ar ran y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru
- Cynnig llety arbenigol i unigolion a theuluoedd ag anghenion cefnogaeth

Fel grŵp o fusnesau cymdeithasol rydym ni hefyd yn:

- Rheoli tair asiantaeth Gofal a Thrwsio (Sir Ddinbych / Gwynedd / Ynys Môn) sy'n cyflawni addasiadau angenrheidiol i gartrefi pobl hŷn
- Cefnogi unigolion a theuluoedd bregus i'w galluogi i fyw'n annibynnol, yn cynnwys y rhai sy'n dioddef trais yn y cartref (Ynys Môn), pobl ddigartref (Sir Ddinbych a Gwynedd) a phobl hŷn (Ynys Môn)
- Cyflogi dau Hwylusydd Tai Gwledig (Conwy a Gwynedd) sy'n cefnogi ymdrechion y gymuned i adnabod anghenion lleol a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy
- Rheoli'r prosiect datblygu cymunedol 'Bus Stop' sy'n gweithio â phobl ifanc (Conwy a Sir Ddinbych)
- Cynnal gweithgareddau adfywio cymunedol ehangach e.e. Canolfan Fenter Congl Meinciau, Llŷn (Gwynedd); Canolfan Fenter Ieuenctid Dinbych (Sir Ddinbych)
- Darparu profiad gwaith a hyfforddiant galwedigaethol e.e. y prosiect Wardeiniaid Ynni Cymunedol (Gwynedd ac Ynys Môn) a rhaglen Prentisiaeth Tai Gogledd Cymru
- Datblygu gwasanaethau cymunedol trwy fentrau cymdeithasol e.e. gwasanaeth arlwyo 'Gwledda' (Ynys Môn).

2.1.2 Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd y Gymdeithas

Cenhadaeth

“Darparu Cartrefi a Gwasanaethau Rhagorol, Datblygu Cymunedau Cynaliadwy Lle Mae Pobl yn Dymuno Byw”

Gweledigaeth

Ein Busnes

- *Bydd gan Grŵp Cynefin enw da fel grŵp o fusnesau cymdeithasol sy'n darparu amrediad o gartrefi a gwasanaethau cymunedol sy'n ateb anghenion lleol*

- *Byddwn yn Gymdeithas sy'n cael ei redeg yn dda, yn gadarn yn ariannol ac yn rheoli perfformiad a risgiau yn effeithiol*
- *Bydd gan denantiaid ddylanwad ar bob lefel gan chwarae rhan flaenllaw yn y strwythur llywodraethu a phenderfyniadau am wasanaethau*
- *Byddwn yn entrepreneuriaidd wrth ddilyn cyfleoedd masnachol sy'n ategu ein nodau cymdeithasol*
- *Byddwn yn medru mesur a dangos effaith ein gweithredoedd ar bobl a chymunedau*

Ein Hardal Weithredu

- *Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy ar draws rhanbarth y gogledd*
- *Byddwn wedi atgyfnerthu ein statws fel partner allweddol i'r awdurdodau lleol lle mae gennym ni fwy o bresenoldeb*

Ein Pobl

- *Bydd ein staff yn gweithio fel un tîm, wedi eu rheoli'n dda ac yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb personol, gan elwa o brofiadau a chyfleoedd gwahanol i ddatblygu eu galluoedd yn unol ag anghenion y busnes*
- *Bydd pob Bwrdd Rheoli yn y grŵp yn cynnwys aelodau ag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad a byddant yn gweithio fel tîm i gyrraedd safonau llywodraethu uchel*
- *Bydd ymddygiad y staff ac aelodau'r Bwrdd yn adlewyrchu ein gwerthoedd*
- *Bydd aelodau staff ym mhob rhan o'r busnes yn ddwyieithog*

Ein Gwasanaethau

- *Bydd ein holl wasanaethau o'r ansawdd uchaf, yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn gwbl ddwyieithog*
- *Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau trwy rwydwaith o swyddfeydd lleol ar draws ein hardal weithredu*
- *Byddwn yn parhau i gydweithio â'n tenantiaid ac asiantaethau cynghori i liniaru effeithiau diwygio lles*
- *Fel grŵp byddwn yn darparu ystod o wasanaethau cymunedol a fydd yn hybu annibyniaeth, iechyd a lles pobl hŷn a phobl mewn angen*
- *Byddwn yn gweinyddu cofrestrau tai fforddiadwy ar ran awdurdodau lleol y gogledd ac yn darparu gwasanaethau i ymgeiswyr, datblygwyr a landlordiaid*

Ein Cartrefi

- *Bydd ein stoc tai cymdeithasol yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a byddwn wedi datblygu safonau ansawdd heriol ein hunain gyda'n tenantiaid*
- *Byddwn yn defnyddio dulliau dyfeisgar i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau ôl troed carbon ein cartrefi*
- *Byddwn yn cydweithio ag awdurdodau lleol a datblygwyr i gyflenwi mwy o dai fforddiadwy, i'w rhentu a'u prynu, sy'n ateb anghenion amrywiol*

- *Bydd gennym ni arbenigedd sylweddol fel darparwr tai gwledig trwy gydweithio â chymunedau i adnabod anghenion tai lleol a'u cynorthwyo i ddatblygu datrysiadau addas*

Ein Cymunedau

- *Byddwn yn uchafu buddion lleol wrth fuddsoddi mewn cymunedau*
- *Byddwn yn sbarduno adfywio cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol*
- *Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol*
- *Byddwn yn hwyluso cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau i denantiaid ac eraill sy'n economaidd anweithgar*
- *Byddwn yn hybu mentergarwch ac yn cefnogi busnesau lleol"*

Gwerthoedd

- Parch
- Rhagori
- Cyflawni
- Cydweithredu
- Hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg
- Canolbwyntio ar denantiaid
- Arloesi
- Cynnal cymunedau lleol

2.2 Strwythur ac Ardal Weithredu

2.2.1 Aelodau'r Grŵp

Mae Grŵp Cynefin yn riant gorff i ddau is-gwmni:

- *Canllaw (Eryri) Cyf.*, cwmni elusennol sy'n rheoli'r asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'r fenter gymdeithasol 'Gwledda'
- *Cywaith Cyf.* sy'n gwmni adfywio cymunedau sy'n rheoli Canolfan Fenter Congl Meinciau ym Motwnnog, Gwynedd.

Hefyd, mae dau frand arall yn gweithredu fel rhan o Grŵp Cynefin:

- *Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych*: mae'r asiantaeth yn darparu gwasanaethau mân addasiadau a diogelwch yn y cartref i bobl dros 60 oed ac yn rheoli menter gymdeithasol 'Gerddi Gwyrdd'
- *Gorwel*: mae'r asiantaeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth sy'n seiliedig ar dai a gwasanaethau eraill ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref, oedolion digartref a phobl hŷn


2.2.2. Llywodraethu

Bydd Grŵp Cynefin yn arddel gwerthoedd craidd sefydledig llywodraethu da: bod yn agored a thryloyw, atebolrwydd ac uniondeb.

Cyfarwyddir busnes y Gymdeithas gan Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys 12 o aelodau gwirfoddol. Nid yw aelodau'r Bwrdd mewn unrhyw fodd ar eu hennill yn ariannol o lywio ac arolygu gwaith y Gymdeithas. Maent yn darparu gwybodaeth arbenigol ynglŷn â'r amryfal feysydd sydd yn rhan o waith y Gymdeithas yn ogystal â chynrychioli gwahanol ardaloedd o fewn ein dalgylch.


Bydd y Bwrdd Rheoli yn cyfarwyddo gweithredoedd y Gymdeithas yn unol â'i hamcanion a'i rheolau. Bydd ei swyddogaethau yn cynnwys:

- i. diffinio a sicrhau cydymffurfio â gwerthoedd ac amcanion strategol y Gymdeithas
- ii. sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo strategaethau, polisiau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion hynny
- iii. bodloni ei hun ynghylch cywirdeb y wybodaeth ariannol a chymeradwyo cyllidebau a chyfrifon a chynlluniau busnes blynyddol
- iv. sefydlu a monitro fframwaith dirprwyo a system o fesurau rheoli mewnol a adolygir yn flynyddol
- v. sefydlu fframwaith ar gyfer adnabod, rheoli a hysbysu am risgiau
- vi. gwneud penderfyniadau a chytuno ar bolisiau ar yr holl faterion a allai greu risg ariannol sylweddol neu risg arall i'r Gymdeithas neu sy'n ymwneud â mater o egwyddor arwyddocaol
- vii. sefydlu mecanweithiau cyfathrebu a derbyn adborth gan randdeiliaid a chyfranddalwyr y Gymdeithas
- viii. monitro perfformiad y Gymdeithas a gweithredu i unioni'r sefyllfa yn amserol lle bo angen
- ix. cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am hunan asesu a chyfrifoldebau eraill fel rhan o weithredu'r fframwaith rheoleiddio
- x. sicrhau bod y Gymdeithas yn atebol am unrhyw ymrwymadau gan y Gymdeithas i'r rheoleiddiwr, neu ymyriad neu ymrwymiad ar y Gymdeithas gan y rheoleiddiwr
- xi. penodi, rheoli a diswyddo'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- xii. bodloni ei hun bod gweithgareddau'r Gymdeithas yn cael eu cynnal yn gyfreithiol, gyda gonestrwydd ac uniondeb
- xiii. sefydlu cod ymddygiad ar gyfer y Bwrdd
- xiv. sefydlu a gweithredu rhaglenni cynefino a datblygu system gwerthuso perfformiad ar gyfer y Bwrdd, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac aelodau unigol y Bwrdd
- xv. sicrhau effeithiolrwydd y llywodraethu yn rheolaidd.



2.2.2 Tîm Arweinyddiaeth

Dirprwyir cyfrifoldeb dros reolaeth gweithredol y Gymdeithas i'r Tîm Arweinyddiaeth.



2.2.2 Swyddfeydd


Mae gan y Gymdeithas rwydwaith o swyddfeydd lleol ar draws ein hardal weithredu, gyda phresenoldeb yn nhrefi Penygroes, Llangefni, Dinbych a'r Bala.

2.2.3 Naws Gymreig

Y Gymraeg yw iaith arferol weinyddol y Gymdeithas.


2.2.4 Ardal Weithredu

Mae'r Gymdeithas yn gweithredu ar draws gogledd Cymru




2.2.5 Stoc Dai

Mae'r Gymdeithas yn rheoli oddeutu 3,700 o unedau tai cymdeithasol a mwy na 700 o dai marchnad canolraddol. Mae'r niferoedd mwyaf o stoc yn siroedd Gwynedd, Sir Ddinbych, Ynys Môn a Chonwy. Rydym hefyd yn dal 10% o gyfran ecwiti ym Mhartneriaeth Tai Cymru, menter ar y cyd a sefydlwyd gyda thair cymdeithas dai yn ne Cymru i ddarparu tai ar y farchnad ganolradd i'w rhentu. Rydym ar hyn o bryd yn prydlesu 31 o gartrefi PTC sydd wedi cael eu caffael ers 2011.



Unedau Tai Cymdeithasol



Unedau'r farchnad ganolraddol

2.3 Defnyddwyr Gwasanaeth

Mae'r gallu i ddarparu gwasanaeth yn iaith gyntaf ein defnyddwyr gwasanaeth yn hollbwysig.

Mae'r Gymdeithas yn dyrannu tai rhent i drigolion lleol – yn deuluoedd, pobl sengl a phobl hŷn – sydd dan anfantais wrth geisio mynediad at gartref addas oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol, sefyllfa economaidd, oedran, anabled neu gyflwr iechyd.

Cynigir benthyciadau ecwiti i ymgeiswyr sydd heb enillion digonol i brynu cartref addas ar y farchnad agored.

Mae "Gofal a Thrwsio Gwynedd", "Gofal a Thrwsio Môn" a "Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych" yn darparu gwasanaethu ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anabledau sydd, fel arfer, yn berchnogion tai sector breifat.

Mae "Gorwel" yn cynnig gwasanaethau cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref, oedolion, digartref a phobl hŷn.

2.4 Yr Iaith Gymraeg

2.4.1 Cyfrifiad 2011

Yn ôl ystadegau cyfrifiad 2011 fe welir fod y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng ym mhob un o'r Awdurdodau Lleol sydd o fewn ein hardal weithredol.

Awdurdod Lleol	% yn gallu siarad Cymraeg 2001	% yn gallu siarad Cymraeg 2011	Newid (pwyntiau canran) o 2001 i 2011
Gwynedd	69.0	65.4	-3.6
Ynys Môn	60.1	57.2	-2.9
Conwy	29.4	27.4	-2.0
Sir Ddinbych	26.4	24.6	-1.8
Powys	21.1	18.6	-2.5
Sir y Fflint	14.4	13.2	-1.2
Wrecsam	14.4	13.2	-1.2

Mae ein hardal weithredu yn amrywio llawer yn ieithyddol, o bentrefi cefn gwlad yn y cadarnleoedd Cymreig i drefi Saesneg eu hiaith.

Yng Ngwynedd mae 27 (42%) o gymunedau lle mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg, 8 (0.2%) cymuned yn Ynys Môn a 2 (0.05%) gymuned yng Nghonwy. Does dim un cymuned yn disgyn i'r categori hwn o fewn Siroedd Dinbych, Powys, Fflint na Wrecsam.

Cymunedau gyda'r canran uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg

Awdurdod Lleol	% uchaf o siaradwyr Cymraeg	% isaf o siaradwyr Cymraeg
Gwynedd	Caernarfon (85.6%)	Arthog (28.3%)
Ynys Môn	Llangefni (80.7%)	Trearddur (35.3%)
Conwy	Ysbyty Ifan (79.1%)	Bae Cinmel a Thowyn (11.3%)
Sir Ddinbych	Gwyddelwern (60.8%)	Y Rhyl (14.2%)

% yn gallu siarad Cymraeg yn ôl grŵp oedran

Awdurdod Lleol	10-14 oed	25-29 oed
Gwynedd	6165 (93.3%)	4381 (67.7%)
Ynys Môn	3053 (81.5%)	2218 (61.6%)
Conwy	3225 (50.2%)	1647 (30.5%)
Sir Ddinbych	2581 (47.2%)	1032 (22.8%)

2.4.2 Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-2017

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwmo i weithredu yn unol â Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Mae hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn un o werthoedd craidd y Gymdeithas a byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol.

2.4.3 Swyddog Cyswllt

Dylid cyfeirio pob ymholiad am y Cynllun Iaith at:

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol
Grŵp Cynefin
Tŷ Silyn
Ffordd Llanllyfni
CAERNARFON
LL54 6LY

E-bost: post@grwpcynefin.org

☎: 0300 111 2122

3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

3.1 Polisiau a Mentrau

- 3.1.1 Prif ffrydio yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwaith a wneir o dan y mesur hwn. Mae'r Gymdeithas yn gweithredu yn unol â diffiniad Llywodraeth y Cynulliad o brif ffrydio'r Gymraeg, sef:
 “Ystyried y Gymraeg ymhob agwedd o'ch gwaith ac ymhob peth rydych yn ei wneud, gyda'r nod o sicrhau bod pob cyfle yn cael ei gymryd i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg; cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru wir ddwyieithog; a chynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg”.
- 3.1.2 Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisïau, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith.
- 3.1.3 Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwrriad fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb Comisiynydd y Gymraeg a'r Bwrdd Rheoli ymlaen llaw.
- 3.1.4 Byddwn yn sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 3.1.5 Gall Cymdeithasau Tai gyfrannu i ddatblygiad yr iaith Gymraeg ar lefel lleol neu gymunedol a byddwn yn anelu i sicrhau fod polisïau a mentrau newydd y Gymdeithas yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

3.2 Darparu Gwasanaeth

- 3.2.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y ddwy iaith.
- 3.2.2 Rydym yn Gymdeithas naturiol dwyieithog a gallwn gynnig ein holl wasanaethau yn Gymraeg ar draws y Gymdeithas.

3.3 Gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan Gymdeithasau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

- 3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn. Ein nod yw sicrhau bod cyrff trydydd parti yn deall ac yn gweithredu'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cwrdd â gofynion y Cynllun Iaith.

- 3.3.2 Wrth osod cytundeb bydd y Cyfarwyddwr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod yr asiantaeth neu'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith ar ran y Gymdeithas yn cydymffurfio â rhannau perthnasol y Cynllun.
- 3.3.3 Gwneir hyn trwy gynnwys manylion perthnasol am ofynion y Cynllun yn y dogfennau tendro, cytundebau ac amodau a yrrir at yr asiantaeth neu'r cwmni perthnasol.
- 3.3.4 Bydd y Gymdeithas yn annog eraill yn y gymuned i wneud defnydd o'r Gymraeg.

Partneriaethau

- 3.3.5 Mae Grŵp Cynefin yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector wirfoddol ac asiantaethau eraill. Rydym yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:
- pan fo'r Gymdeithas yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith
 - pan fo'r Gymdeithas yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei arwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a byddwn yn annog partïon eraill i gydymffurfio
 - pan fo'r Gymdeithas yn gweithredu fel rhan o gonsortia, bydd yn annog y consortia i fabwysiadu Cynllun Iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortia bydd y Gymdeithas yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.
- 3.3.6 Pan fo'r Gymdeithas yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu cynlluniau iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd y Gymdeithas yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.
- 3.3.7 Bydd y Gymdeithas yn sicrhau fod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

3.4 Safonau Ansawdd

- 3.4.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a chant eu darparu o fewn yr un amserlen.
- 3.4.2 Bydd y Gymdeithas yn datgan yr egwyddor ganolog hon mewn dogfennau allweddol fel cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol. Dylid ei ddatgan

hefyd mewn sefyllfaoedd eraill lle gwneir datganiadau ynglŷn â chyfle cyfartal a safon gwasanaeth.

4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

4.1 Gohebiaeth

- 4.1.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
- 4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon a ni ddylai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi. Bydd ein targedau ar gyfer ateb gohebiaeth yn Gymraeg yr un peth a'n targedau ar gyfer ateb gohebiaeth yn Saesneg.
- 4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
- 4.1.4 Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu Gymdeithas, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.
- 4.1.5 Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at gynulleidfa eang, bydd yn ddwyieithog.
- 4.1.6 Os bydd yn rhaid cyhoeddi fersiwn Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac am yr un pris (os yn berthnasol).
- 4.1.7 Bydd deunydd fydd wedi'u hamgáu gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd deunyddiau fydd wedi eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog.
- 4.1.8 Byddwn yn gwneud cofnod o'r sawl sydd yn dymuno delio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.2.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau gall y cyhoedd siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.
- 4.2.2 Bydd pob aelod o staff yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad Cymraeg.
- 4.2.3 Bydd neges ddwyieithog, gyda'r neges Gymraeg gyntaf, ar beiriant ateb personol pob aelod o staff.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

- 4.3.1 Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan y Gymdeithas, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, byddwn yn egluro i'r rhai fydd yn bresennol y bydd croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Fe fydd amgylchiadau lle bydd yn briodol ar sail gwybodaeth i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig.
- 4.3.2 Byddwn yn mabwysiadu dull o sefydlu dewis iaith wrth wneud y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn dilyn y drefn ganlynol:
- Bydd hysbysiadau cyhoeddus, gwahoddiadau a phapurau eraill sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer y digwyddiadau hyn yn ei gwneud yn glir fod croeso i'r cyhoedd gyfrannu yn Gymraeg neu yn Saesneg
 - Bydd y trefnydd yn asesu os oes angen cyfleusterau cyfieithu.
- 4.3.3 Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir neu os yw'n wybyddus fod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ac fe ddarperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
- 4.3.4 Os yw'n hysbys ar gychwyn cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.
- 4.3.5 Ein harfer safonol fydd darparu unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau eraill sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Cyhoeddir adroddiadau neu bapurau yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog hefyd.
- 4.3.6 Bydd ein staff yn gwneud eu gallu ieithyddol yn glir mewn cyfarfodydd, er enghraifft drwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau "Iaith Gwaith" Comisiynydd y Gymraeg.

4.4 Cyfarfodydd Eraill

- 4.4.1 Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn Gymraeg.
- 4.4.2 Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd byddwn yn canfod eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf a byddwn yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rhai sy'n nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.
- 4.4.3 Disgwylir i staff wneud defnydd o'r Gymraeg lle bo gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael mewn cyfarfodydd.

4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

- 4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag byddwn yn delio â'r cyhoedd.
- 4.5.2 Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i alluogi'r cyhoedd i ddelio gyda ni yn Gymraeg drwy gyfathrebu electronig, ar lein neu gyfryngau eraill.
- 4.5.3 Byddwn yn ystyried gofynion y Cynllun hwn wrth ddarparu neu gynllunio systemau technoleg gwybodaeth newydd, neu wrth ddarparu cyfryngau rhyngweithiol.

5. WYNEB CYHOEDDUS Y GYMDEITHAS

5.1 Hunaniaeth gorfforaethol

5.1.1 Mae ein delwedd gyhoeddus, gan gynnwys ein cyfeiriad, slogan corfforaethol, hunaniaeth weledol ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddefnyddir ar ddeunydd a nwyddau'r Gymdeithas (megis papur pennawd, cardiau busnes, cyhoeddiadau ayyb) ac mewn amgylchiadau eraill megis ar arwyddion, cerbydau ac adeiladau yn ddwyieithog.

5.2 Arwyddion

5.2.1 Mae holl arwyddion gwybodaeth o eiddo'r Gymdeithas, gan gynnwys manau mewnol lle mae aelodau'r cyhoedd yn cael mynediad yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

5.2.3 Bydd arwyddion ar safleoedd datblygu yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg gyntaf. Fodd bynnag enw Cymraeg yn unig a ddefnyddir mewn perthynas ag enwau lleoedd, strydoedd ag ati lle bo dau enw.

5.2.4 Wrth ddatblygu stad newydd o dai, bydd y Gymdeithas yn cynnig enw Cymraeg ar y stad, fel arfer gyda chysylltiad hanesyddol â'r ardal. Yn aml gofynnir i'r Ysgol Gynradd leol gynnig enwau.

5.2.5 Cydnabyddir mai'r awdurdod lleol biau'r gair terfynol gydag enwi stadau newydd a bydd y Gymdeithas yn eu hannog (os nad ydynt yn dewis yr enw a gynigiwyd gennym) i roi enw Cymraeg neu ddwyieithog ar y stad.

5.2.6 Mae prosesau mewn lle i sicrhau cywirdeb testun, a byddwn yn cydlynu ac arolygu hynny'n ofalus, yn enwedig pan roddir gwaith allan i gytundeb.

5.3 Cyhoeddi a Phrintio Deunydd

5.3.1 Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen.

5.3.2 Sicreir bod staff ac argraffwyr yn ymwybodol o'r Cynllun â'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

5.3.3 Bydd yr holl wybodaeth i'w chyhoeddi ar wefan gyhoeddus y Gymdeithas yn ddwyieithog, a bydd deunydd ar gael i'w ddarllen yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

5.3.4 Byddwn yn sicrhau bod testun Cymraeg ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y cywair yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol

5.4.1 Bydd pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a gyhoeddir gan y Gymdeithas i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog.

5.4.2 Ein harfer safonol fydd i gynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

5.4.3 Byddwn yn sicrhau bod cysondeb termau yn arfer rheolaidd wrth baratoi ffurflenni.

5.4.4 Bydd unrhyw ddatblygiad i sefydlu darpariaeth electronig ar gyfer cwblhau ffurflenni yn sicrhau cyfartaledd i'r iaith Gymraeg.

5.5 Hysbysiadau i'r Wasg

5.5.1 Mae hysbysiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus y Gymdeithas a byddwn felly yn eu cyhoeddi yn ddwyieithog fel arfer, ond yn Gymraeg yn unig wrth ddefnyddio cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.

5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

5.6.1 Wrth fynd ati i gyflawni gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys cynhyrchu pamffledi, trefnu arddangosfeydd a seminarau, byddwn yn gweithredu'r amcanion canlynol:

- cynhyrchu pob deunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg a Saesneg
- cynnal ymgyrchoedd hysbysebu i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg
- hysbysebu ar bosteri a byrddau gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg
- cynnal arolygon cyhoeddus yn ddwyieithog, boed drwy'r post neu wyneb yn wyneb
- cynnal ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol yn Gymraeg a Saesneg
- gosod arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth ddwyieithog.

5.6.2 Cynhelir rhai o'r gweithgareddau uchod yn Gymraeg yn unig mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, megis Eisteddfodau.

5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

5.7.1 Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein hysbysiadau swyddogol a hysbysiadau cyhoeddus yn ymddangos yn ddwyieithog gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Byddent yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd

5.7.2 Bydd hysbysebion am swyddi yn ymddangos yn Gymraeg ymhob cyhoeddiad, gyda brawddeg esboniadol fel troednodyn yn cael ei chynnwys mewn cyhoeddiadau Saesneg neu ddwyieithog.

5.7.3 Darperir pecynnau gwybodaeth, megis swydd ddisgrifiadau a manylion personol yn Gymraeg ar gyfer pob un o'n swyddi.

6. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

6.1 Staffio

Er mwyn cwrdd â'n nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, byddwn yn sicrhau bod aelodau staff ym mhob rhan o'r busnes yn ddwyieithog.

6.2 Recriwtio

6.2.1 Mae Grŵp Cynefin yn gweithredu yn gadarnhaol tuag at gydraddoldeb, ac mae swyddi a gwaith gwirfoddol y Gymdeithas yn agored i bobl addas o bob cefndir sy'n fodlon gweithio o fewn ei nod ai hamcanion a'i harferion gweithredol.

6.2.2 Mae'r gallu i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer pob penodiad staff newydd o fewn Grŵp Cynefin.

6.2.3 Bydd gweinyddiad Gymraeg y Gymdeithas yn agored hysbys i ymgeiswyr am swyddi a gwirfoddolwyr, fel na chânt eu camarwain wrth wneud cais nac wrth ymuno â hi.

6.2.4 Os bu anhawster recriwtio unigolyn sy'n siarad Cymraeg i swydd, efallai y bydd angen ystyried penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg. Yn yr achos yma, yr arferiad fydd un ai:

- hysbysebu eto gan ddweud y bydd ymgeiswyr di-Gymraeg yn cael eu hystyried ar yr amod eu bod yn ymrwmo i ddysgu Cymraeg i safon arbennig o fewn amser penodol, gyda'r lefel o gymhwyster i'w phrofi,
- hysbysebu penodiad dros-dro a'i adolygu er mwyn diwallu'r angen mewn ffordd arall, neu
- ail hysbysebu wedi amser penodol

6.3 Hyfforddiant Cymraeg

6.3.1 Byddwn yn cefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog a chefnogi aelodau o staff a'r Bwrdd i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- 6.3.2 Bydd Rheolwyr a swyddogion Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn annog staff i fynd ar gyrsiau iaith os yn briodol. Caiff cynnydd yn sgil hyfforddiant ei fesur fel rhan o gyfundrefn datblygiad personol y Gymdeithas.
- 6.3.3 Bydd y Gymdeithas hefyd yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ynglŷn â disgwiliadau'r Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth anwytho staff newydd.

6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 6.4.1 Bydd Rheolwyr a swyddogion Adnoddau Dynol sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol iaith Gymraeg ar gyfer staff.
- 6.4.2 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bo'n ymarferol.
- 6.4.3 Os nad oes cyrsiau parod ar gael yn Gymraeg mewn maes penodol, byddwn yn ystyried trefnu seminarau a gweithgorau ein hunain, neu rwydweithio â sefydliadau eraill.

6.5 Trefniadau Gweinyddol

- 6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Gymdeithas. Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y Cynllun iaith ac mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.
- 6.5.2 Bydd gan Reolwyr gyfrifoldeb am weithredu'r agweddau hynny o'r Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.5.3 Y Gymraeg yw iaith arferol weinyddol y Gymdeithas. Byddwn yn sicrhau bod staff yn derbyn yr hyfforddiant a'r cymorth angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 6.5.4 Er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle byddwn yn darparu adnoddau megis geiriaduron, meddalwedd terminoleg Cymraeg a meddalwedd eraill cyfrwng Cymraeg i staff.
- 6.5.5 Pan fo angen byddwn yn gofyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- 6.5.6 Cynhelir yr holl gyfarfodydd mewnol trwy'r Gymraeg. Os oes aelod o staff nad yw'n deall yr iaith yn mynychu, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac fe all y person hwnnw/honno gyfrannu i'r cyfarfod yn Saesneg.

- 6.5.7 Bydd holl gofnodion y cyfarfodydd mewnol yn cael eu paratoi yn y Gymraeg yn unig.
- 6.5.8 Cynhyrchir adroddiadau i'r Bwrdd Rheoli a'r pwyllgorau yn y Gymraeg yn unig os yw pawb sy'n eu derbyn yn deall yr iaith, neu fel arall yn ddwyieithog.
- 6.5.9 Gall adroddiad gynnwys dogfennau allanol yn Saesneg (lle nad oes fersiwn Cymraeg ar gael), ond bydd unrhyw sylwadau ar y dogfennau yn Gymraeg. Rhoddir pwysau ar y cyrff allanol hyn i ddarparu eu deunydd a'u dogfennau yn ddwyieithog.
- 6.5.10 Cynhelir cyfarfodydd o'r Bwrdd Rheoli, a'r pwyllgorau yn yr iaith Gymraeg os yw pawb yn deall yr iaith. Fel arall, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod.
- 6.5.11 Bydd cofnodion y Bwrdd Rheoli a phwyllgorau'r Gymdeithas yn cael eu paratoi yn y Gymraeg yn unig os yw pawb sy'n eu derbyn yn deall yr iaith, neu fel arall yn ddwyieithog.
- 6.5.12 Bydd popeth a gynhyrchir yn fewnol ar gyfer y staff, megis ffurflenni, negeseuon, adroddiadau, cytundeb gwaith a.y.b. yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg. Wrth ddefnyddio'r mewnrwyd, CLIC, bydd staff di-Gymraeg/llai rhugl yn gallu defnyddio meddalwedd i gyfieithu negeseuon, ffurflenni a.y.b.
- 6.5.13 Bydd gwefan y gymdeithas yn gwbl ddwyieithog.
- 6.5.14 Bydd tudalen gartref a chynnwys y mewnrwyd yn ymddangos yn newis iaith y defnyddiwr.
- 6.5.15 Cynhyrchir polisïau'r Gymdeithas yn ddwyieithog.
- 6.5.16 Bydd pob sic a anfonir gan y Gymdeithas yn cael ei hargraffu yn Gymraeg.

6.6 Cyfieithu

- 6.6.1 Dylai pob adran fod yn ddigon hyderus yn y ddwy iaith i gyfieithu llythyrau a dogfennau syml. Os nad yw unigolyn yn hyderus i gyfieithu llythyrau/dogfennau byr, dylid eu rhoi i berson arall o fewn yr adran. Trefnir i gyfieithu unrhyw ddogfennau eraill naill ai gan adnodd mewnol neu gan gyfieithydd allanol.

6.7 Arolygu Gweithredu'r Cynllun

- 6.7.1 Yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol sydd yn gyfrifol am arolygu ac adolygu'r Cynllun hwn.

- 6.7.2 Bydd arolygu'r Cynllun hwn yn weithgaredd parhaus â strwythur iddo. Bydd hyn yn cynnwys arolygu'r meysydd canlynol:
- cydymffurfiaeth â'r Cynllun
 - ansawdd y gwasanaeth – edrych ar gwynion a'r gwasanaeth rheng flaen
 - rheolaeth a gweinyddiad
 - digonolrwydd sgiliau ieithyddol – yn seiliedig ar ymrwymadau 6.1
- 6.7.3 Byddwn yn defnyddio trefn gwyno arferol y Gymdeithas i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn ac yn sicrhau bod modd arolygu cwynion am y Cynllun yn benodol.
- 6.7.4 Mae'r Gymdeithas yn croesawu a chofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r gwasanaeth.
- 6.7.5 Bydd y Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd Rheoli yn flynyddol ac yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat wedi ei gytuno â Chomisiynydd y Gymraeg a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant i'r Cynllun a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

6.8 Cyhoeddi Gwybodaeth

- 6.8.1 Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi ble gall aelod o'r cyhoedd gael gafael ar gopi o'n hadroddiad monitro blynyddol at Gomisiynydd y Gymraeg.
- 6.8.2 Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn benodol ar y meysydd canlynol sy'n seiliedig ar y safonau a'r targedau yn y Cynllun (bydd y wybodaeth yma hefyd yn ymddangos yn ein hadroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg):
- Nifer a % staff y Gymdeithas sy'n medru siarad Cymraeg, fesul adran a gweithle neu swyddfa
 - Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol neu hyfforddiant gloywi iaith
 - Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Gymdeithas

6.9 Cyhoeddu'rwydd

- 6.9.1 Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.9.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, gan gynnwys sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

6.9.3 Byddwn yn sicrhau bod staff ac asiantaethau'r Gymdeithas yn gyfarwydd â'r mesurau sydd yn y Cynllun er mwyn gwneud yn siŵr y telir sylw i'r mesurau bob tro mae hynny'n briodol.

CYNLLUN GWEITHREDU 2014-2015

Yr hyn sydd i'w gyflawni	Amserlen	Cyfrifoldeb	Deilliannau
1. Cyhoeddi'r Cynllun Iaith ar ein gwefan	Ebrill	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol / Swyddog Cyhoeddusrwydd	Sicrhau fod y Cynllun yn hygyrch i bawb.
2. Gosod logo a linc at wefan Comisiynydd y Gymraeg ar wefan Grŵp Cynefin	Ebrill	Swyddog Cyhoeddusrwydd	Cryfhau'r cyswllt rhwng y Gymdeithas a Chomisiynydd y Gymraeg.
3. Cyflwyno'r Cynllun Iaith i Fyrddau Rheoli Canllaw a Cywaith a Phwyllgorau Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych a Gorwel	Ebrill – Mai 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Sicrhau fod y Byrddau yn ymwybodol o'r gofynion sydd yn y Cynllun
4. Cynnal cyfres o sesiynau i gyflwyno'r Cynllun Iaith i'r holl staff	Ebrill – Mehefin 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Codi ymwybyddiaeth staff ynglŷn â disgwyliadau'r Cynllun Iaith
5. Cynnwys y Cynllun Iaith yn rhaglen anwytho aelodau Bwrdd a staff newydd ar draws y Grŵp	Mai 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol / Uwch Swyddog Personel	Codi ymwybyddiaeth aelodau Bwrdd a staff newydd ynglŷn â disgwyliadau'r Cynllun Iaith
6. Sefydlu trefn ar gyfer casglu gwybodaeth a chofnodi defnydd iaith ein tenantiaid.	Mai – Mehefin 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Sicrhau fod gennym gofnod o ddewis iaith ein tenantiaid
7. Cynnal asesiad o lefel sgiliau ieithyddol staff ac aelodau'r Bwrdd	Gorffennaf – Medi 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Adnabod unrhyw anghenion hyfforddiant
8. Cynllunio rhaglen hyfforddiant fel bo'n briodol.	Medi – Rhagfyr 2014	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Sicrhau cefnogaeth i staff nad ydynt yn rhugl yn yr iaith Gymraeg neu staff sy'n dymuno gloywi eu hiaith Gymraeg neu Saesneg

9. Monitro sampl o ohebiaeth a anfonir i gwsmeriaid gan staff.	Parhaol	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Sicrhau fod staff yn cyd-fynd â gofynion y Cynllun laith wrth ohebu â chwsmeriaid
10. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd Rheoli	Mawrth 2015	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli cyn cyflwyno'r Adroddiad i'r Comisiynydd y Gymraeg
11. Cyfrannu at 'ymchwiliad safonau' Comisiynydd y Gymraeg	Mai 2015	Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol	Casglu tystiolaeth ynglŷn â pha safonau y dylai mudiadau gydymffurfio â hwy